PAPUR/ENCLOSURE

CH

**ADRAN Y DIRPRWY PRIF WEITHREDWRAIG**
**DEPARTMENT OF THE DEPUTY CHIEF EXECUTIVE**

**LYNN BALL LL.B., (Hons.)Cyfreithiwr/Solicitor**
**PENNAETH SWYDDOGAETH (BUSNES Y CYNGOR) / SWYDDOG MONITRO**
**HEAD OF FUNCTION (COUNCIL BUSINESS) / MONITORING OFFICER**

**CYNGOR SIR YNYS MON /**
**ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL**
**Swyddfa'r Sir / Council Offices**
**LLANGEFNI**
**Ynys Môn / Anglesey**
**LL77 7TW**

**DX: 701771 – LLANGEFNI**

**ffôn / tel: (01248) 752563**
**ffacs / fax: (01248) 752132**
**E-Bost – E-mail:** APXCE@anglesey.gov.uk

**Ein Cyf – Our Ref.** AP/EC/CC-017471-AP
**Eich Cyf – Your Ref.**

Ombudsmon Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

DRAFT

Annwyl Foneddigion

**YNGHYLCH: Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn**

Yn ystod cyfarfod o Bwyllgor Safonau Ynys Môn, cytunwyd y byddai o fudd i'r holl bwyllgorau safonau ar draws Cymru pe gallai'r Ombwdsmon gynorthwyo i ddarparu canllawiau ynghylch sut i benderfynu ar y cosbau y dylid eu rhoddi i Gynghorwyr sy'n torri'r Côd Ymddygiad. Yn arbennig felly, roedd y Pwyllgor Safonau o'r farn y gallai'r Ombwdsmon gynorthwyo trwy ddarparu'r dogfennau isod:-

1. Canllawiau cynhwysfawr ar y ffactorau y dylai Pwyllgor Safonau eu hystyried pan yn penderfynu ar y gosb i'w rhoddi (gan gynnwys astudiaethau achos ac enghreifftiau). Mae Panel Dyfarnu Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ynghylch cosbau ar ei wefan gan nodi'r ffactorau y byddant yn eu hystyried wrth benderfynu ar y gosb ac mae'r Pwyllgor Safonau'n teimlo y byddai rhywbeth ar yr un ffurf yn ddefnyddiol.

2. Copi ar wefan yr Ombwdsmon yn nodi'r penderfyniadau hynny a wnaed gan Bwyllgorau Safonau ledled Cymru mewn perthynas â materion yn ymwneud â chodau ymddygiad. Ar hyn o bryd, nid yw hyn ar gael yn unman a byddai o gryn ddefnydd i Bwyllgorau Safonau ar hyd Cymru.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych cyn gynted ag sy'n bosibl.

Yn gywir iawn

<u>Michael Wilson</u>
<u>Cadeirydd y Pwyllgor Safonau</u>